| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Mehefin 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Barbara Smith - Aelod Arweiniol Moderneiddio** |
| | **Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Alan Smith** |
| **Teitl:** | **Adroddiad SIRO ar gyfer 2015/16** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2016 ac yn rhoi manylion achosion o dorri'r ddeddf diogelu data gan y Cyngor sydd wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO- Pennaeth Moderneiddio a Gwella Busnes yng Nghyngor Sir Ddinbych). Mae hefyd yn ymdrin â chwynion am y Cyngor yn ymwneud â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth sydd wedi cael eu cyfeirio at Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am geisiadau Mynediad i Wybodaeth/ Rhyddid Gwybodaeth a wneir i'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae Polisi Diogelu Data'r Cyngor yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ganiatáu’r Aelodau i oruchwylio'r broses.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai cynnwys yr adroddiad gael ei nodi gan y Pwyllgor.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Ochr yn ochr â'r Swyddog Diogelu Data, mae’r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) â chyfrifoldeb penodol i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae'r systemau a gynlluniwyd i sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu gwneud yn llwyddiannus yn dibynnu ar dryloywder ac agoredrwydd, felly mae'n arbennig o bwysig bod Aelodau’n cael trosolwg o'r broses.

Rwy’n falch o adrodd na fu unrhyw achosion difrifol o dorri’r Ddeddf Diogelu Data yn y Cyngor yn ystod 2015/16. Er bod pum digwyddiad lle y collwyd neu y peryglwyd data personol a adroddwyd i’r Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth a’u harchwilio, nid oedd unrhyw un yn ddigon difrifol i’w hadrodd i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae hyn yn duedd sy’n gwella: bu’n rhaid i ni adrodd 2 o achosion difrifol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 14/15 a 4 yn 13/14. O'r 5 achos a ddigwyddodd yn CSDd yn 2015/16, cafodd yr wybodaeth ei hadfer yn gyflym ym mhob achos ac ni arweiniodd at unrhyw niwed sylweddol. Roedd tri o’r achosion hyn yn cynnwys anfon data personol i’r cyfeiriad anghywir;

un yn ymwneud â gwybodaeth bersonol yn cael ei styffylu i ohebiaeth arall mewn camgymeriad ac roedd un ymwneud â gweithiwr CSDd yn gadael gwybodaeth bersonol ar lungopïwr mewn siop un alwad.

Un o ganlyniadau ymchwiliadau'r Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth oedd gwella'r ffocws ar y systemau a'r prosesau yn y timau lle y digwyddodd yr achosion hyn. Cynhaliwyd sesiynau gweithdy gyda'r timau gweinyddol yn y Gwasanaethau Plant ac Addysg i archwilio sut y gellir adolygu eu prosesau a sut i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir ganddynt yn cael ei diweddaru gan grwpiau proffesiynol eraill. Mae nifer o fentrau ymarferol wedi deillio o hyn, gan gynnwys gwell defnydd o swyddogaethau postgyfuno o fewn system TGCh PARIS, y defnydd o amlenni 'ffenestr' fel nad oes yn rhaid ailysgrifennu cyfeiriadau, a gwaith pellach gyda grwpiau proffesiynol i wella eu prosesau recordio.

Y Ddeddf Diogelu Data Newydd

Dylai'r Aelodau nodi y disgwylir i'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd gael eu cyhoeddi yn ystod mis Gorffennaf 2016. Mae cyfnod pontio o 2 flynedd cyn iddynt gael eu gorfodi yn 2018. Ar ôl pedair blynedd o gynllunio, bydd y rheoliadau hyn yn disodli Deddf bresennol Diogelu Data 1998. Disgwylir i'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol fod yn debyg i Ddeddf Diogelu Data 1998 ond byddant yn cynnwys gofynion newydd fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Data (gan gynnwys y Cyngor) ystyried a sicrhau fod y bobl, y prosesau a'r gweithdrefnau priodol yn eu lle yn barod ar gyfer 2018:

- Dirwyon mwy am achosion difrifol o dorri rheoliadau Diogelu Data. Uchafswm y ddirwy fydd 20 miliwn Ewro (£500mil ar hyn o bryd).
- Bydd yn rhaid i bob Rheolydd Data enwebu Swyddog Diogelu Data sy'n cael eu galluogi i wneud penderfyniad diduedd.
- Bydd Ceisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain yn rhad ac am ddim ac mae'n rhaid ymateb iddynt o fewn 1 mis (£10 ar hyn o bryd gyda therfyn amser o 40 diwrnod).
- Hysbysiadau gorfodol o achosion difrifol diogelu data.
- Mwy o bwyslais ar sicrhau fod rhannu data personol yn seiliedig ar resymau cyfreithiol.
- Dogfennaeth orfodol, yn bennaf bod angen cynnal Asesiadau o Effaith ar Breifatrwydd a chreu Cofrestrau Ased Gwybodaeth.
- Mwy o bwyslais ar dderbyn caniatâd penodol gan unigolion h.y. mae'n rhaid i unigolion ddewis ymuno yn hytrach na dewis peidio ymuno.

Pan fydd CSDd yn rhannu gwybodaeth bersonol gyda'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus, gwneir y trefniant yng nghyd-destun cytundeb WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru), y mae'r Cyngor wedi cofrestru ar ei gyfer. Bydd y rheoliadau newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar arddangos y sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn y dyfodol, ond dylai bod hyn yn bosibl o fewn y trefniadau WASPI presennol.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Derbyniwyd cyfanswm o 1,236 o geisiadau yn ystod y 12 mis diwethaf hyd at 31 Mawrth 2016. Unwaith eto, mae'r ffigur hwn yn nodi cynnydd ers y llynedd (+8%), gyda nifer uwch o

geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain, mae'n ymddangos bod lefel y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cyrraedd isafbwynt. O'r rhain, atebwyd 93% o fewn y safon o 20 diwrnod a chymeradwywyd 897 ohonynt yn llawn neu'n rhannol. Y prif resymau dros wrthod cais oedd naill ai nid oedd yr wybodaeth gennym neu ei fod eisoes ar gael i'r cyhoedd mewn man arall.

Tabl 1: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd ar gyfer 2015/16 a 2014/15.

| | **Rhyddid Gwybodaeth** | **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol** | **Cyfanswm** | **DP** | **Cyfanswm pellach** |
|---|---|---|---|---|---|
| 14/15 | 880 | 127 | **1007** | 131 | 1138 |
| 15/16 | 871 | 183 | **1054** | 182 | 1236 |

Roedd y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn canolbwyntio ar rai meysydd penodol yn fwy nag eraill ac fel o'r blaen, roeddent yn ymwneud â busnesau neu gan unigolion yn bennaf. Mae'r rhai a gyflwynodd ceisiadau amlaf dros y 12 mis diwethaf wedi'u nodi yn y tabl isod.

Tabl 2: Math o ymgeisydd 2015-2016

| **Math o Ymgeisydd** | **Nifer y ceisiadau** |
|---|---|
| Academaidd | 18 |
| AC/AS | 104 |
| Busnes | 181 |
| Elusen / Grŵp Lobi | 56 |
| Cynghorydd | 2 |
| Unigolyn | 494 |
| Y Cyfryngau | 153 |
| GIG | 1 |
| Awdurdodau eraill | 22 |
| Cyfreithwyr | 11 |
| Undebau | 12 |
| | |
| Cyfanswm | 1054 |

Mewn rhai achosion, cafodd penderfyniadau ynglŷn â mynediad i wybodaeth eu herio gan y gofynnwr, neu nid oedd cytundeb yn fewnol ynghylch a ddylai gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor gael ei rhyddhau ai peidio. Cafodd yr achosion hyn eu hadolygu gan Banel a gadeiriwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd. Cyfarfu'r panel 7 gwaith yn ystod y flwyddyn ac adolygwyd 14 o achosion. Mae Atodiad A yn rhestr o'r rhain, ynghyd â chanlyniad pob adolygiad.

Yn 15/16, ni ymchwiliwyd unrhyw gwynion am y Cyngor o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, o gymharu â 3 yn 14/15. Fel ymateb i gwynion y llynedd, gwellwyd ein gweithdrefnau i sicrhau bod achosion cymhleth yn cael eu cydnabod

yn gynnar yn y broses er mwyn gallu darparu ymatebion prydlon, ac ymddengys fod y camau hyn wedi gwella perfformiad y Cyngor.

Dylid nodi fod rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Diogelu Data yn parhau i achosi costau o ran adnoddau i'r Cyngor, gyda swyddog yn ymwneud â hyn yn llawn amser. Yn ogystal â hyn, darperir gwaith sylweddol o fewn gwasanaethau gan Swyddogion Rheoli Gwybodaeth, sy'n darparu'r atebion manwl ar gyfer pob cwestiwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi amcan y Cyngor i foderneiddio, ond nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â blaenoriaeth gorfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'w hystyried.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen asesiad gan fod yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Dim, mae'r adroddiad er gwybodaeth yn unig.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae camau gweithredu'r aelodau sy'n archwilio'r adroddiad hwn yn rhan o'r broses o liniaru'r risg corfforaethol sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad.

**Atodiad A: Cyfarfodydd Panel Mynediad i Wybodaeth 2015-16**

| **Dyddiad Cyfarfodydd Panel Mynediad i Wybodaeth** | **Mater** | **Canlyniad** |
|---|---|---|
| **16/04/2015** | Rhyddid Gwybodaeth 4443 – Landlordiaid a Budd-daliadau Tai | Ymgynghori â landlordiaid |
| | Rhyddid Gwybodaeth 4482 – Adroddiad Sbectrwm | Adran 22 (cyhoeddiad yn y dyfodol) |
| | | |
| **01/05/2015** | Rhyddid Gwybodaeth 4443 – Landlordiaid a Budd-daliadau Tai | Datgelu'r holl wybodaeth. (penderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ddiweddar) |
| | Rhyddid Gwybodaeth 4524 – Balansau Credyd Treth y Cyngor | Datgelu cyfeiriadau. Atal enwau'r gweithredwyr. (penderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ddiweddar) |
| | | |
| **02/07/2015** | Rhyddid Gwybodaeth 4647 – Llythyr Ymddiswyddo Cynghorydd | Datgelu'r llythyr (Atal y cyfeiriad) |
| | Rhyddid Gwybodaeth 4757 – Eiddo Gwag | Eithriad Adran 31 (atal trosedd) wedi'i gadarnhau ar gyfer eiddo preswyl. S40 (2) wedi'i gadarnhau ar gyfer enwau perchnogion (data personol). |
| | Rhyddid Gwybodaeth 4770 – Cartrefi Gofal | Angen mwy o wybodaeth gan y Gwasanaeth (Canlyniad terfynol – Adran 43 yn rhannol – sensitifedd masnachol) |
| | Rhyddid Gwybodaeth 4728 – Hysbysiadau Gwella | **Ni** fydd enwau'r swyddogion yn cael eu hatal dan Adran 40 (2) (data personol). |
| | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 564 – Contractau Rheoli Gwastraff | Adran 43 (Sensitifedd Masnachol) ar gyfer rhan o'r cais |
| | | |
| **25/08/2015** | Rhyddid Gwybodaeth 4775– Angladdau Iechyd Cyhoeddus | Adran 22 (cyhoeddiad yn y dyfodol) Adran 31 (Atal trosedd) |
| | | |
| **17/12/2015** | Rhyddid Gwybodaeth 137– | Adran 12 (terfyn priodol) ac |

| | | |
|---|---|---|
| | Lleoliadau Trwyddedig | Adran 40 (2) (data personol) |
| | | |
| **17/03/2016** | Rhyddid Gwybodaeth 404 – Gwaharddiadau | Adran 40 (2) (data personol) wedi'i gadarnhau ar gyfer rhannau o'r cais |
| | | |
| **31/03/2016** | Ceisiadau lluosog gan un unigolyn | Adran 12 ( terfyn priodol). Adran 14 (blinderus) |
| | Rhyddid Gwybodaeth 721 – Cytundeb Masnachfraint Bwyd | Adran 43 (sensitifedd masnachol) |